**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 51 (Cy. 22)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ionawr 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *26 Ionawr 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 22(1), 22(2)(f), 22(7)(d) a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygio) 2017 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2017..

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(**3**).

### Diwygio Rheoliadau 2002

**2.** Mae Rheoliadau 2002 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau rheoliadau 3 i 5.

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli) mewnosoder y canlynol yn y lle priodol—

"ystyr "cartref plant diogel" ("*secure children's home*") yw cartref plant, o fewn ystyr y Ddeddf—

(a) sy'n darparu llety at ddibenion cyfyngu ar ryddid; a

(b) y mae person wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad ag ef;".

**4.** Yn rheoliad 29 (digwyddiadau hysbysadwy), ar ôl paragraff (4), mewnosoder—

(**1**) 2000 p. 14. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan yr "appropriate Minister". Diffinnir y term hwn yn adran 121 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 o ran Cymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) *Gweler* adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 am y gofyniad i ymgynghori.

(**3**) O.S. 2002/327 (Cy. 40).

"(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad mewn perthynas â marwolaeth plentyn sy'n cael ei letya mewn cartref plant diogel."

**5.** Ar ôl rheoliad 29, mewnosoder—

"**Hysbysu mewn cysylltiad â marwolaeth plentyn sy'n cael ei letya mewn cartref plant diogel**

**29A.**—(1) Os bydd unrhyw blentyn sy'n cael ei letya mewn cartref plant diogel yn marw, rhaid i'r person cofrestredig yn ddi-oed hysbysu—

(a) swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru;

(b) yr awdurdod lleoli;

(c) yr awdurdod lleol y mae'r cartref plant diogel wedi'i leoli yn ei ardal;

(ch) yr awdurdod iechyd y mae'r cartref plant diogel wedi'i leoli yn ei ardal;

(d) Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth Cymru a Lloegr ("yr OCPh"); ac

(dd) rhiant y plentyn neu'r person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig ganiatáu i'r OCPh ymchwilio i'r farwolaeth drwy—

(a) rhoi i'r OCPh fynediad i—

(i) safle'r cartref; a

(ii) dogfennau a chofnodion y cartref;

(b) caniatáu i'r OCPh fynd â chopïau o unrhyw ddogfennau neu gofnodion o'r safle y ceir mynediad iddynt o dan is-baragraff (a)(ii) ar yr amod bod gan yr OCPh drefniadau diogel i wneud hynny; ac

(c) os byddant yn cydsynio, ganiatáu i'r OCPh gyfweld yn breifat ag unrhyw blant, rhieni (neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhiant) neu berthnasau, neu bersonau sy'n gweithio yn y cartref.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan y rheoliad hwn—

(a) cynnwys manylion—

(i) amgylchiadau'r farwolaeth;

(ii) y personau, y cyrff neu'r sefydliadau eraill (os oes rhai) y mae'r person cofrestredig wedi'u hysbysu neu'n bwriadu eu hysbysu; a

(iii) unrhyw gamau y mae'r person cofrestredig wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r farwolaeth;

(b) cael ei wneud neu ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr OCPh yn cynnwys person sydd wedi'i benodi gan yr OCPh neu sy'n gweithio ar ei ran at ddibenion ymchwilio o dan baragraff (2)."

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

24 Ionawr 2017

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002.

Mae'r diwygiadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer hysbysu am farwolaeth plentyn sy'n cael ei letya mewn cartref plant diogel. Yn benodol, mae'n ofynnol i'r person cofrestredig hysbysu Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth Cymru a Lloegr ("yr OCPh") os bydd unrhyw blentyn sy'n cael ei letya mewn cartref plant diogel yn marw.

Mae'r diwygiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i berson cofrestredig cartref plant diogel ganiatáu i'r OCPh ymchwilio i'r farwolaeth drwy:

a) rhoi i'r OCPh fynediad i safle'r cartref a dogfennau a chofnodion y cartref;

b) caniatáu i'r OCPh fynd â chopïau o unrhyw un neu ragor o ddogfennau a chofnodion y cartref o'r safle ar yr amod bod gan yr OCPh drefniadau diogel i wneud hynny; ac

c) caniatáu i'r OCPh (â chydsyniad) gyfweld yn breifat ag unrhyw blant, rhieni neu berthnasau, neu bersonau sy'n gweithio yn y cartref.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.